# Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

**Cofnodion y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd Nos Fercher - 14.10.20 - yn Y Ganolfan, Llwyngwril**
**Yn dilyn canllawiau diogelwch Covid-19, fel y cynghorwyd gan Gyngor Gwynedd.**

**Presennol:** Huw Davies (Cadeirydd), Ian Williams, Dylan Thomas, Keith Carroll, Kevin Goodchild, Geraint Edwards, Geraint Micah, David Griffiths, John Griffiths, Jenny Warne, Louise Hughes (Cynghorydd Sirol), Glenda Edwards (Clerc) ag un aelod o'r cyhoedd – Mr Nick Ward.

1. **Ymddiheuriadau:** Dim.

2. **Croeso'r Cadeirydd**: Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, a thrafodwyd swyddi newydd am 2020/21.

   **Cadeirydd:** **Huw Davies** ➞ Huw wedi cynnig parhau i fod yn Gadeirydd tan Mis Mai 2021 ➞ pawb yn cytuno.
   **Is-gadeirydd: Kevin Goodchild** ➞ Kevin wedi cynnig parhau i fod yn Is Gadeirydd tan Mis Mai 2021 ➞ pawb yn cytuno.

   **Cynrychiolwyr:** **Un Llais Cymru:** Dylan Thomas a Kevin Goodchild. **Pwyllgor Pîg yr Allt:** Geraint Edwards.
   **Heddlu:** Ian Williams **Y Ganolfan:** David Griffiths.

3. **Cadarnhau'r Cofnodion Blaenorol:** Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y **10.09.20** fel rhai cywir.
   **Cynnig** – John Griffiths **Eilio –** David Griffiths **Arwyddwyd –** Huw Davies.

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol (10.09.20):**
   a) **Arwyddion ar y llwybrau cyhoeddus yn Llwyngwril:** Ateb wedi ei dderbyn gan swyddog Llwybrau Cyhoeddus, Cyngor Gwynedd, yn cadarnhau fod arwyddion ar gael i'w rhoi ar y llwybrau cyhoeddus i atgoffa defnyddwyr o'r canllawiau Covid-19 i gadw pellter diogel +++
   **Penderfyniad** ➞ gofyn am arwyddion i Lwybr y Perthi, Llwybr y Crynwr ac i'r Cae Chwarae.
   b) **Llwybr/Ramp i lan y môr ger y Crynwyr yn Llwyngwril:** Ateb wedi ei dderbyn gan Swyddog Llwybrau Cyhoeddus, Cyngor Gwynedd yn cadarnhau fod y ramp wedi ei archwilio yn ddiweddar a bod diffygion wedi eu hamlygu. Gan fod yna nifer o ddynodiadau amgylcheddol yn yr ardal yma o'r arfordir - bydd rhaid ymgynghori a derbyn caniatâd gan Gyfoeth Naturiol Cymru cyn ymgymryd ag unrhyw waith adfer.
   c) **Llwybr i'r traeth - Sunbeach, Llwyngwril:** Ateb wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd yn cadarnhau eu bod yn ymchwilio'r mater yma ac y byddent yn cysylltu eto cyn gynted ag y bydd ateb pendant ar gael.

5. **Gohebiaeth:**
   a) **Biniau Halen:** Cyngor Gwynedd yn gofyn a oes biniau halen angen ei llenwi yn Llwyngwril/Rhoslefain ?
   Pris i lenwi bin halen = £46.00.
   **Penderfyniad** ➞ Kevin Goodchild wedi cynnig checio'r biniau halen.
   b) **HistoryPoints.org:** Rhodri Clark wedi cysylltu i ofyn a fyddai'r Cyngor Cymuned a diddordeb mewn arddangos "plac codau QR" gerllaw'r Cof Golofn yn Llwyngwril. Byddai HistoryPoints yn ymchwilio'r bobl a enwir ar y Cof Golofn ac yn creu tudalen we gyda'u manylion, ynghyd a map.
   Byddent wedyn yn dylunio ac yn argraffu'r codau QR.
   Byddent yn gwerthfawrogi rhodd o £50 tuag at y gwaith o gynhyrchi'r plac.
   **Penderfyniad** ➞ gofyn i HistoryPoints gynhyrchu plac i roi ger y Cof Golofn ➝ pawb yn gytûn i roi rhodd o £50.00.
   **Cynnig** – Huw Davies **Eilio** - Geraint Edwards.

6. **Materion Cynllunio:** Dim.

7. **Adroddiad Ariannol**: Adolygiad Ariannol wedi ei wneud.
Derbyniwyd Adroddiad Mis Medi 2020 yn gywir.
**Cynnig –** Ian Williams **Eilio –** Kevin Goodchild **Arwyddwyd –** Huw Davies.

a) Anfoneb gan Mr D J Griffiths am dorri'r llwybrau cyhoeddus: £200.00 (siec 100786) wedi ei dalu.

b) Anfoneb gan Gyngor Gwynedd – cytundeb darpariaeth toiledau cyhoeddus Llwyngwril 2020/2021 = **£2,000.00**
**Penderfyniad** ➞ cysylltu â Chyngor Gwynedd i gael dadansoddiad o bryd oedd y toiledau cyhoeddus yn Llwyngwril ar agor rhwng Mis Mai a Mis Hydref 2020.

8. **Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr:** Dim

9. **Adroddiad y Cynghorydd Sirol:** Derbyniwyd adroddiad Louise Hughes.

10. **Unrhyw Fater Arall:**

a) **"Wreath":** wedi cael ei archebu ar gyfer Gwasanaeth Sul y Cofio, Eglwys Llwyngwril – 08.11.20.
**Penderfyniad** ➞ Rhodd tuag at "Poppy Appeal" eto eleni - pawb yn cytuno i roi'r un faint a llynedd = **£40.00**
Huw Davies wedi cynnig cynrychioli'r Cyngor Cymuned yn y gwasanaeth a gosod y "wreath".

b) **Coed Nadolig 2020:** John Griffiths wedi cynnig archebu Coeden Nadolig i Roslefain gan Mr Evans, Gwanas.
Geraint Edwards wedi cynnig gofyn i Emlyn Roberts am Goeden Nadolig i Lwyngwril.

c) **Network Rail:** Adroddiadau wedi ei derbyn fod y gwaith arfaethedig ar y rhwystrau diogelwch yr "Allt" Friog yn dal heb ei wneud
**Penderfyniad** ➞ cysylltu â NWR i gael diweddariad ac esboniad pam nad yw'r gwaith wedi cael ei gychwyn.

d) **Broadband:** adroddiad gan Ian Williams yn cadarnhau fod 60 cyfeiriad yn Llwyngwril wedi eu cyflwyno i gynllyn "Openreach Community Fibre Broadband Partnership Portal" i geisio cael broadband cyflymach yn Llwyngwril.
Openreach i ymchwilio'r costa.

e) **Llwybr Llwyn Du**: cwyn wedi ei dderbyn fod giât derfyn Hendre a Llwyn Du (ar y llwybr cyhoeddus) yn cael ei gadael ar agor, a bod peryg i'r gwartheg fynd lawr y llwybr i'r ffordd fawr
**Penderfyniad** ➞ cysylltu â swyddog llwybrau cyhoeddus Cyngor Gwynedd i'w wneud yn ymwybodol o'r broblem.

## Dyddiad y Cyfarfod Nesaf : Nos Fercher - 11.11.20 - am 7 o'r gloch yn y Ganolfan, Llwyngwril

**Arwyddwyd**
**Cadeirydd ……………………………………………………………………………………………… Dyddiad ……………………………**